**Y Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd, 28 Tachwedd**
**Pwyntiau Gweithredu**

| |
|---|
| **Aelodau'r Tasglu** |
| Alun Davies AC (Cadeirydd), Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes |
| Kate Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |
| Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth |
| Ann Beynon, Cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Jocelyn Davies, Cyn Ddirprwy Weinidog Tai ac Adfywio |
| Andrew Diplock, Cyfarwyddwr Strategaeth a Llywodraethu, Inprova Energy |
| Judith Evans, Pennaeth, Coleg y Cymoedd |
| Dr Chris Jones, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC |
| Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd y Cyngor, Rhondda Cynon Taf |
| Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd |
| **Aelodau'r Bwrdd** |
| Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig |
| Tracey Burke, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr, Strategaeth yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth |
| Jo-Anne Daniels, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi |
| Owen Evans, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Maureen Howell, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cydraddoldeb a Ffyniant |
| John Howells, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio |
| Ruth Meadows, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfathrebu Digidol a Strategol |
| Huw Morris, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes |
| **Cyflwynwyr** |
| Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, Entrepreneuriaeth a Chyflawni |
| Chris Sutton, Cyfarwyddwr, JLL |
| **Gwestai** |
| Dawn Chadwick, Tîm Cyfathrebu Llywodraeth Cymru |
| Andrew Falleyn, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflawni Seilwaith |
| Leigh Hughes, LSKIP, Bwrdd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Alun Owen, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr |
| Janet Owen Jones, Llywodraeth Cymru, Pennaeth Datblygu a Chyflawni Strategol |
| Marion Stapleton, Llywodraeth Cymru, Dirprwy Gyfarwyddwr, Tîm Strategaeth Trawsbynciol |
| Y Cynghorydd Debbie Wilcox, LSKIP, Cyngor Dinas Casnewydd |
| **Ysgrifenyddiaeth y Gweithlu** |
| Nathan Cook, Llywodraeth Cymru |
| Laura Evans, Llywodraeth Cymru |
| Lucy Hoddinott, Llywodraeth Cymru |
| Beverley Morgan, Llywodraeth Cymru |

**1: Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes aelodau'r tasglu i'r ail gyfarfod. Eglurodd mai ffocws y cyfarfod oedd ymchwilio i sut y gellid gwella mynediad i swyddi o ansawdd da a sgiliau cyflogadwyedd.

**2: Metro a Seilwaith De Cymru**

Rhoddodd Chris Sutton (JJL) gyflwyniad ar system Metro De Cymru gan amlinellu'r cyfleoedd buddsoddi a masnachol posibl. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys:

- Yr angen i ledaenu twf a buddsoddiad ledled Rhanbarth De Cymru, nid ar hyd coridor yr M4 yn unig, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod ffyrdd 'addas i'w diben', tir a safleoedd diwydiannol ar gael cyn i'r Metro ddechrau gweithredu.
- Datblygu trefi presennol fel Merthyr Tudful yn ganolfannau, gan annog lledaenu buddsoddiad a chyfoeth, yn enwedig lle'r oedd trefi yn debygol o ddatblygu'n gyfnewidfeydd/hybiau traffig yn sgil y Metro.
- Pwysigrwydd denu'r sector preifat i Gymru a'r cymhellion ariannol posibl y gellid eu cynnig.
- Y defnydd cynyddol o adeiladau cymunedol presennol gan BBaChau a allai hefyd adfywiogi cymunedau lleol a threfi.
- Rôl ardaloedd menter yn dwyn ynghyd adnoddau a rôl Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wrth greu ardaloedd menter sy'n addas i'w diben.

**3: Entrepreneuriaeth**

Darparodd Duncan Hamer, Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Cymru, Entrepreneuriaeth a Chyflawni, gyflwyniad byr yn amlinellu gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag entrepreneuriaeth. Roedd y pwyntiau trafod allweddol yn cynnwys:

- Prentisiaethau a sut y gellid eu hysbysebu a'u defnyddio'n well. Gallai pobl ifanc ddysgu'r sgiliau i ddechrau eu busnesau eu hunain neu ddatblygu eu cwmnïau eu hunain.
- Gwell cymorth ar gyfer cwmnïau sector preifat i ddeall gwir ystyr prentisiaeth fodern.
- Cynlluniau prentisiaeth rhanbarthol a chynlluniau rhanbarthol i roi mwy o eglurder i ysgolion o ran pa lwybrau sydd ar gael.
- Pwysigrwydd sgiliau meddalach yn addysg/prentisiaeth person ifanc. Mae hyder a sgiliau cymdeithasol yn cael effaith fawr ar allu pobl i sefydlu eu busnesau eu hunain.
- Mae angen iddynt ddatblygu dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag dilyn prentisiaeth a'r rhwystrau i entrepreneuriaeth / dechrau eu busnesau eu hunain.
- Ymgysylltu ag entrepreneuriaid presennol y gellid eu hannog i rannu eu profiadau â phobl ifanc. Gellid ymgynghori â nhw hefyd i weld beth ellid ei wneud i gadw sgiliau, entrepreneuriaid a busnesau yn y cymoedd.
- Entrepreneuriaid i ddefnyddio unedau dechrau yn y cymoedd a sut gellid cynyddu nifer yr unedau.

- Yr angen i adeiladu ar gynigion presennol sy'n cael eu datblygu gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar "gynnig cymorth busnes".

## 4: Cyflogadwyedd

Darparodd Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Llywodraeth Cymru, Cymunedau a Threchu Tlodi a Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru gyflwyniad yn amlinellu rhaglenni cyflogadwyedd allweddol Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Cyflogadwyedd sydd ar ddod. Roedd y pwyntiau trafod allweddol yn cynnwys:

- Roedd trafnidiaeth a hygyrchedd yn ystyriaethau allweddol ar gyfer cyflogadwyedd.
- Yr angen am fwy o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Llai o gynlluniau a oedd yn haws eu deall a'u defnyddio.
- Angen gwell cyngor ar yrfaoedd.
- Roedd y Cynllun Cyflogadwyedd newydd yn ceisio lleihau llawer o'r cymhlethdodau mewn perthynas â rhaglenni cael gafael ar waith sy'n arwain at ddull dwys, parhaus.
- Y posibilrwydd i ddefnyddio'r cymoedd fel lle i dreialu Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.
- Yr angen am ddull canolog i wneud yr holl waith ledled y cymoedd.

**Cam gweithredu: Gan adeiladu ar drafodaethau'r tasglu, mae swyddogion wedi'u comisiynu i lunio amlinelliad drafft o Gynllun Swyddi a Chyflogadwyedd ar gyfer y cymoedd.**

Y cyfarfod nesaf: 2 Chwefror 2017.

Diwedd.